

Catchphrase 2002: Ysbyty Brynaber - Week 4

Key Language

Wnes i +verb

Ddaru fi +verb

Fy mod i, dy fod ti etc

New words

triniaeth	-	treatment
yn rhyfeddol	-	remarkably
achos llys	-	court case
cyd-ddigwyddiad	-	coincidence
yn anffodus	-	unfortunately
damwain	-	an accident
peryglus	-	dangerous
yn blaen	-	plainly
perffaith siwr	-	perfectly sure
braw	-	a fright
cyfarfod	-	meeting
rheolwr banc	-	bank manager
budur	-	dirty
cyhuddo	-	to accuse
hanesion	-	rumours
creu	-	to create
trafferth	-	trouble
cael cam	-	to be wrongly blamed
trueni	-	a pity
clên	-	pleasant
llefain (SW)	-	to cry
rheswm	-	a reason
poen	-	pain
chwilio am	-	to look for
cyfraith	-	law
hwylio	-	to sail
cryf	-	strong

Main Grammatical Points

Expressing the past tense

Short forms of the past tense is formed by adding endings to the stem of the verb

For example:

Edrych –	Edrychais i
	Edrychaist ti
	Edrychodd e or edrychodd o (North Wales)
	Edrychodd hi
	Edrychon ni
	Edrychoch chi
	Edrychon nhw

Another way of conveying the same meaning is to use the past tense of the verb gwneud with the verb noun:

Mi wnes i alw - I called

Wnes i feddwl - I thought

Beth wnaeth ddigwydd - What happened

Ddaru is also used to convey the same meaning in North Wales

Ddaru fi alw - I called

Ddaru fi feddwl - I thought

Beth ddaru ddigwydd - What happened

Noun clauses introduced by 'bod'

Take the two sentences. Dw i'n meddwl – I think and Mae Jenny yn poeni – Jenny is worried. When we combine both sentences – In English using the word that and in Welsh bod the construction is:

Dw i'n meddwl bod Jenny yn poeni - I think that Jenny is worried

The following forms are used with pronouns

Y mod i
Dy fod ti
Ei fod e
Ei fod o
Ein bod ni
Eich bod chi
Eu bod nhw

Dw i'n meddwl ein bod ni'n deall ein gilydd - I think that we understand each other

Beth taswn i'n dweud ych bod chi ar fai - What if I said that you were mistaken

Dw i'n gwybod y mod i'n hwyr - I know that I'm late

Useful expressions

Wy'n falch o glywed - I'm glad to hear

Chi ddim yn cytuno - Don't you agree – cytuno to agree

Trueni - A pity – dyna drueni – what a pity

Cwyno am bytu - To complain about – am bytu is a common expression in South Wales – clywed am bytu – to hear about, siarad am bytu – to speak about.

Cael trafferth - To experience difficulties

Mynd â nhw - To take them

Dod â nhw - To bring them

Daeth o â nhw - He brought them

Ysbyty Brynaber: Episode 10

Jenny calls at the hospital to see Dic Allen. They discuss the repercussions of the accident. Allwch chi ddim a stopio'r Heddlu rhag gwneud eu job... You can't stop the police doing their job.

Arwyn catches up with Wendy Keating. He questions her about the accident and suggests that she might have been mistaken...

Geirfa

triniaeth	-	treatment
yn rhyfeddol	-	remarkably
achos llys	-	court case
cyd-ddigwyddiad	-	coincidence
yn anffodus	-	unfortunately
damwain	-	an accident
peryglus	-	dangerous
yn blaen	-	plainly
perffaith siwr	-	perfectly sure
braw	-	a fright

Golygfa 1

Jenny - Dr Allen...? Dr Allen?

Dic - Sori...Sori...gwrando ar y radio rôn i...Woman's Hour...Tipyn o hwyl a dweud y gwir...

Jenny - Jenny Saunders ydw i...

Dic - O? ...Shw'mai?

Jenny - Mi wnes i alw pnawn ddoe...Ond oeddech chi'n cysgu yn y gadair 'na... a dôn i ddim yn lecio distyrbio...a wedyn nes i feddwl y basa'n well imi alw rhywbryd eto...

Dic - O, reit...Cysgu? Ôn i?

Jenny - Oeddech. Yn sownd.

Dic - Eisteddwch...Sori...Os symudwch chi'r papure newydd 'na...Wendy sy'n 'neud yn siwr fod digon o bethe i ddarllen 'da fi pob dydd...

Jenny - Wendy? Nyrs Keating, ia?

Dic - Ie. Mae hi wedi bod yn dda iawn wrtho i...Edrych ar y'n ôl i...

Jenny - Ca'l triniaeth arbennig, te?

Dic - Jyst abowt...Wy'n gobeitho bod nôl gartre yn y fflat erbyn diwedd yr wthnos...

Jenny - Ma' pawb yn deud wrtha i ych bod chi wedi mendio yn rhyfeddol...

Dic - Odw...yn lot gwell na'r disgwyl...

Jenny - Mae'n ddrwg gen i am be na'th ddigwydd...

Dic - Wel, ôn i mor feddw...Siwr bo' chi wedi ca'l yffach o sioc...? Gweld rhyw dwpsyn caib yn rowlio o flaen ych car chi...?

Jenny - Do, braidd..Ges i andros o sioc...Sori, ond jyst...Dwi'n teimlo mor ofnadwy...

Dic - Sdim isie...Dw i'n iawn...roedd y bai arna i.....Dr Saunders, edrychwch - plis - peidwch a chrio...Fydda i'n O.K...Wir ichi nawr...

Jenny - Ond ma'r polis...

Dic - Beth?

Jenny - 'Falla bydd 'na ffeil yn cael ei gyrru i'r D.P.P...Efallai bydd 'na achos llys...

Dic - Doctor Saunders...Mrs Saunders...Edrychwch...Dw i'n siwr bydd bob dim yn iawn...Dw i'n siwr...

Jenny - Allwch chi na fi ddim stopio'r polis rhag gwneud eu job. Dim ots be 'nawn ni...A dyna dw i'n ei ofni...

Golygfa 2

Arwyn - O'r diwedd, wir...Helo, Wendy...

Wendy - Bore da...

Arwyn - Dyma gyd-ddigwyddiad ynte? Dim ond newydd barco'r car 'ma on i jest nawr.... Wy'n falch iawn bod ni wedi cwrdd fel hyn...

Arwyn - A dw i'n falch o glywed fod Richard yn iawn...Ddarllenes i'r ffeil...'Sdim niwed mawr wedi'i

wneud i'r goes oes e...?

Wendy - Mae e'n dal mewn poen...

Arwyn - Ma'r pethe 'ma'n digwydd yn anffodus. A damwain yw damwain. Rhaid bod chi wedi ca'l braw ofnadw...

Wendy - Fright? Yeah. To see him tossed like a rag-doll...

Arwyn - Ond roedd e ar fai yn sefyll ar ganol y ffordd fel'na...? Dych chi ddim yn cytuno?

Wendy - Yeah, 'falle...

Arwyn - 'Sdim falle am y peth...Roedd e'n gwneud peth peryglus ofnadw, peryglus iddo fe ac i'r bobol oedd yn dreifio...A faint yn gwmws oedd e wedi'i gael i yfed?

Wendy - Cwpwl o beints...

Arwyn - Cwpwl o beints?

Wendy - Yeah...

Arwyn - A beth yw 'cwpwl o beints' i chi? Dau? Tri? Pedwar? Pump? Chwe peint? Neu fwy?

Wendy - Dwi ddim yn cofio faint...

Arwyn - Wendy – alla i siarad yn blaen?

Wendy - Yeah, go ahead...

Arwyn - Achos wy'n meddwl bod ti a fi yn deall ein gilydd yn eitha da...Neu o leia fe licen i feddwl bod ni'n deall ein gilydd...Y busnes 'ma da'r polis...Y statement 'ma...

Wendy - Oedd rhaid i fi...

Arwyn – Dw i'n'n deall hynny...Ond dyw 'ngwraig i ddim yn gallu cysgu'r nos ar gownt be wnaeth hi...Er bod dim bai arni hi ...Ond mae gyda hi boen meddwl arall...

Wendy - I only told the police what I saw.

Arwyn - What you think you saw.

Wendy - No. What I saw.

Arwyn - What? In the semi-darkness? At more than nine hundred yards away? At the same time as you were tending to Dr Allen?

Wendy - It was you who got out of the drivers side.

Arwyn - Wendy...Chi'n berffaith siwr nawr?

Wendy - Positive.

Arwyn - Be taswn i'n dweud bod chi – sut ddweda i hyn? – bod chi...that you were mistaken...?

Wendy - You can't fool me. I saw what I saw. O.K.?

Ysbyty Brynaber: Episode 11

You can't fool me, I saw what I saw. OK? Wendy is pretty convinced that Jenny Saunders was not driving the car at the time of the accident. Arwyn suggests to Wendy that he might be able to help her with the complaint that has been lodged against her by one of the patients and having a word with Sister Agnes Rees.

Geirfa

cyfarfod	-	meeting
rheolwr banc	-	bank manager
budur	-	dirty
cyhuddo	-	to accuse
hanesion	-	rumours
creu	-	to create
trafferth	-	trouble
cael cam	-	to be wrongly blamed

Arwyn - Ewch i mewn... 'Steddwch, Wendy...

Wendy - Ble?

Arwyn - Unrhyw le... Y gadair yna... Neu honna... 'Sdim ots...

Arwyn - 'Sgiwsiwch fi... Mam, sori, drychwch – na ddim nawr, sori – na, wy mewn cyfarfod... odi, pwysig... Ah-uh... Na, alla i ffonio chi nol mewn munud? Odw, odw, wy'n addo... Hwyl am y tro... Sori, Wendy...

Wendy - Ma'n O.K.

Arwyn - Ia, fel o'n i'n dweud ar y ffordd draw 'ma i'r swyddfa... Ma' ganddon ni i gyd y'n problema... 'Na beth yw bywyd ontefe? Set o broblemau. Crossword puzzle anferth... Chi ddim yn cytuno?

Wendy - Yeah... It can be a bit puzzling...

Arwyn - Ond faint ohonon ni sy'n llwyddo i gael yr atebion yn iawn?

Wendy - Ma' Dad yn lecio crossword Y Times... A'th e i competition lan yn Birmingham unweith... Ddaeth e'n fifth yn y quarter finals...

Arwyn - Wendy... Dere inni siarad yn onest... Am faint wyt ti wedi bod yn yr ysbyty 'ma? Chwe mis?

Wendy - Pum mis... Jyst...

Arwyn - Pum mis... ac ydy popeth yn O.K.?

Wendy - Mmmm... Ydy... O.K.ish.

Arwyn - ok-ish? Pam? Oes rhyw broblem 'da ti?... Rhywbeth y licet ti ei drafod... Oes 'na?

Wendy - Oes, yeah... As a matter of fact, mae 'na...

Arwyn - Dwed be... 'Falle galla i dy helpu di.

Wendy - There's this old goat... Percy Edwards ydy'i enw fe... a right old groper... a mae e wedi'n riportio fi, reit?... A mae hi Florence Nightingale, Sister Rees yn rhoi reprimand i fi – it's down on my file that I was rude... She's had it in for me from the word go... Giving me all the crappy, disgusting jobs... Ma' hi jyst yn jealous... Jyst achos bod gyda hi bywyd crap... Ma' pawb yn gwybod am 'i gwr hi, Brian... Everyone knows that he's having it off with everything and everyone o fan hyn i John O'Groats... Ma pawb o'r staff yn gwybod...

Arwyn - O'r gore. Sdim isio becsu, Wendy. Ga i air 'da Agnes... Gyda Sister Rees – a gweld be alla i 'neud.

Golygfa 2

Agnes - Arwyn... Croeso nôl o America...

Arwyn - Diolch yn fawr. Ond yn anffodus, dod nol i drwbwl nes i a Jennifer.

Agnes - Weles i Jenny bore 'ma...

Arwyn - Mae hi mewn tipyn o stad...

Agnes - Ôn i'n gallu gweld 'nny. Treni.

Arwyn - Ie. Treni mawr.

Arwyn - Ond ma' coes y claf yn gwella?

Agnes - Ych chi ddim wedi ei weld e 'to?

Arwyn - Ydw. Galwodd Jenny a fi ddoe ond roedd e'n cysgu... A dôn ni ddim yn lico distyrbo'i gwsge...

Agnes - Fydde ddim ots 'da Richard. Mae e jyst â byrsto i adael y ward a mynd nol gartre...Mae'n gas gyda fe glywed pobol yn chwyrnu, medde fe.

Arwyn - Ddim yr hen Mr Edwards? Y rheolwr banc 'na?

Agnes - Ia. 'Dyna chi. Percy Edwards.

Arwyn - Mae 'na hanesion amdano fe wedi nghyrraedd i'n barod. Pobol yn cwyno 'bytu fe...Oedd un o'r doctoriaid yn dweud wrtho i taw hen ddyn bach budur yw e...

Agnes - Ond mae Mr Edwards wedi cwyno wrtho i 'fyd.

Arwyn - Ydy e? 'Bytu beth?

Agnes - Ddim am beth. Ond am pwy. Wna i mo'i enwi...Dim ond dweud fod un nyrs wedi cael ei chyhuddo o fod yn 'rude.'

Arwyn - Mae isie bod yn ofalus iawn cyn credu rhywun fel fe, Agnes...Ma' hanesion amdano fe...Pan oedd e'n fanc manajiar, roedd e'n creu trwbwl rhwng pobol yn y rotari...

Agnes - Dôn i ddim yn gwbod 'nny...

Arwyn - Mae e'n wir...Dyn sy'n cael trafferth dweud y gwir yw Percy Edwards, mae 'da fi ofn...

Agnes - Bydd rhaid i fi gofio hynny.

Arwyn - Bydd...Neu mi fydd rhywun wedi cael cam.

Agnes - Diolch am ddweud wrtho i, Arwyn.

Ysbyty Brynaber: Episode 12

Dic is preparing to leave hospital. Dic recounts to Wendy that Jenny Saunders had been to visit him. He adds that she was very concerned about the incident. Wendy's response is that she has good reason to be concerned! Wendy knows full well who was behind the wheel of the car on that fateful evening!

Arwyn tells Dic that they should get to know each other better by going sailing or fishing. During their conversation there's a call from a tearful Jenny Saunders.

Geirfa

trueni	-	a pity
clên	-	pleasant
llefain (SW)	-	to cry
rheswm	-	a reason
poen	-	pain
chwilio am	-	to look for
cyfraith	-	law
hwylio	-	to sail
cryf	-	strong

Golygfa 1

Wendy - A'r blodau 'ma, Dic?

Dic - Jenny Saunders ddaeth a nhw i fi...a'r bisgedi 'na...a'r chocolate...a'r botel 'na o Badoit...Trueni, ti'n gwybod. Menyw glên...

Wendy - Ie. Far too good for that creep of a husband.

Dic - Creep?

Wendy - Yeah. Count Dracula's long lost cousin...

Wendy - It's true.

Dic - Mae ei wraig e'n beco...

Wendy - Dw i'n siwr bod hi...

Dic - Ond o'n i'n trio dweud wrthi, "Edrychwch, ôn i off 'y mhen...Ôn i'n feddw gaib...' Plis, peidiwch â beio'ch hunan 'bytu beth ddigwyddodd...Ond doedd hi ddim yn gallu stopo llefain....

Wendy? Beth sy'? Ti'n dawel iawn...?

Wendy - Mmmmm.

Dic - Sori? Dw i wedi dweud rhywbeth...?

Wendy - Mae 'na reswm pam ma Jenny Saunders yn poeni...

Dic - Wel, oes, dw i newydd ddweud...

Wendy - Na. Rheswm arall. Rheswm mwy.

Dic - Paid a dweud wrtho i...Ond doedd dim insiwrans ganddi hi?

Wendy - Maybe I should have said something sooner...I have in a statement to the police...

Dic - Dweud beth?

Wendy - Dw i bron yn convinced...Bron 100% yn siwr... dim hi oedd yn dreifo'r car.

Wendy - Sori, dw i'n gwbod mod i'n 'rong am beidio dweud dim byd cyn hyn...Ond dôn i ddim yn lecio gan fod ti mewn poen...ag yn meddwl taw bai ti oedd e eniwe...

Dic - Pwy oedd yn dreifo 'te?

Wendy - Pwy ti'n feddwl?

Dic - Ei gwr hi? Arwyn?

Wendy - Yep...

Dic - Ti'n siwr?

Wendy - Ydw.....

Dic - Wyt ti? Wir?

Wendy - Gweles i fe'n glir trwy'r ffenest wrth i'r car basio...Gweld y car yn dy hitio di...A drefio ymlaen cyn stopo i fyny'r ffordd...Oedd 'na rhyw breathing space a wedyn ddaeth e ma's...a rhedeg rownd at yr ochor arall, at ei wraig...A wedyn daeth y ddau aton ni a dy symud di ar y palmant...

Wendy - And that's the honest truth.

Dic - A 'na beth ddwedest ti wrth y polis?

Wendy - Dyna be weles i, Dic.

Wendy - Hei! Edrycha. Mae e'n dod...Well i fi fynd...

Dic - Diolch am helpu i baco...

Arwyn - Nyrs Keating, weles i Sister Rees jyst nawr a wy'n meddwl 'i bod hi'n chwilio amdanoch chi...

Wendy - Mwy o stic!

Arwyn - Na. Na, dw i ddim yn credu hynny...Richard...Pa hwyl?

Dic - Paco i fynd gartre ydw i.

Arwyn - Dyna'r lle gore ichi wella....

Dic - Bydd hi lot brafiach yn y fflat.

Arwyn - Bydd. Edrychwch, mae'n drueni bo' hyn wedi digwydd o gwbl, on'dyw hi?...Y ddamwain ffordd 'na noson o'r blaen...Mae 'ngwraig i mewn stad ofnadw...

Dic - Mae hi wedi dweud sori fwy nag unweth chware teg iddi.

Arwyn - Ia, wel...Dyma'r tro cynta i Jen fod mewn trwbwl gyda'r gyfraith yn 'i bywyd...Mae'r peth yn pwyso arni...

Dic - Damwain oedd hi, Dr Saunders...

Arwyn - Yn gwmws...Damwen...Dw i'n falch o glywed ti'n dweud hynny, Richard –

Dic - Dic. Plis...

Arwyn - Rhaid inni ddod i 'nabod y'n gilydd yn well, Dic...Ti'n golffio?

Dic - Na...

Arwyn - Pysgota?

Dic - Na...

Arwyn - Hwyllo?

Dic - Erioed wedi gwneud...

Arwyn - Does neb yn rhy hen i ddysgu...Ma cwch 'da fi...

Dic - Oes e?

Arwyn - Oes...A rhaid inni fynd mas rhywbryd...pan fydd yr hen goes wedi gwella yn iawn...Gewn ni lot o sbort, wy'n siwr...Sgiwsiwch fi...Helo?

Jenny - Arwyn?

Arwyn - Hei, hei...Beth sy'?

Jenny - Ar yr ail-bost...Jyst rwan...O'r llys...Dw i'n gorfod mynd yno mewn tair wsnos...'Driving without due care and attention'...Arwyn, alla i ddim wynebu'r peth. Alla i ddim. Dwi ddim digon cry.

Dyna pam dw i'n mynd i ddeud y gwir i gyd!

Arwyn - Paid â mynd i banic! Reit? Bydda i gartre nawr.

Dic - Oes 'na problem?

Arwyn - Problem? Na. Dw i'n edrych mlaen i ni'n dau ddod i 'nabod yn gilydd yn well, Richard.

Synopsis

Jenny has been to see Dic in Hospital and has told him of her worry about being prosecuted over the car accident.

Arwyn has had a word with Wendy Keating about what she saw during the accident and asks her whether or not she made a mistake in identifying him as the driver to the police. Her response was "You can't fool me. I saw what I saw."

Arwyn has continued his scheming and has advised Ward Sister Agnes Rees not to pursue the complaint lodged against Wendy for being rude to one of the patients, ex-bank manager Percy Edwards. He has also started befriending Dic Allen.

Test yourself

1. Translate 'Are you perfectly sure?' into Welsh
 - a) Ydych chi'n siwr nawr
 - b) **Ydych chi'n berffaith siwr?**
 - c) Oeddech chi'n siwr?
2. Translate 'I think she's looking for you' into Welsh
 - a) Dw i'n gobeithio ei bod hi'n chwilio amdanoch chi
 - b) Dw i'n dweud ei bod hi'n chwilio amdanoch chi
 - c) **Dw i'n meddwl ei bod hi'n chwilio amdanoch chi?**
3. Which of the following translates as 'a coincidence'?
 - a) cyd-fynd
 - b) **cyd-ddigwyddiad**
 - c) cydweithio
4. What's the Welsh in South Wales for 'to cry'?
 - a) **llefain**
 - b) gweiddi
 - c) lladd
5. What's the Welsh verb for 'to accuse'?
 - a) cwyno
 - b) cofio
 - c) **cyhuddo**
6. How could we translate the Welsh phrase; 'I'm glad to hear'?
 - a) dw i'n hapus i glywed
 - b) **dw i'n falch o glywed**
 - c) mae'n drist gen i glywed